Pecyn Dogfennau

# GWELLIANT I'R RHYBUDD O GYNNIG

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**Derbyniwyd: 9:52 yh, 7fed Hydref 2019**

**Gwelliant i'r Hysbysiad o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Rob James yn ystod cyfarfod Cyngor Sir Caerfyrddin ar 9fed Hydref 2019**

"**Mae'r Cyngor hwn yn:**

- **Nodi bod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi datgan argyfwng hinsawdd yn unfrydol yn gynharach eleni, gan ymrwymo i wneud y Cyngor Sir yn awdurdod lleol di-garbon net erbyn 2030.**

- **Nodi casgliadau'r Panel Rhynglywodraethol ynghylch Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) "ein bod yn gweld canlyniadau cynhesu byd-eang 1°C yn barod drwy dywydd mwy eithafol, codiad yn lefel y môr ac iâ môr yn toddi yn yr Arctig";**

- **Nodi bod adroddiad yr IPCC yn nodi bod yn rhaid i allyriadau carbon deuocsid byd-eang fod ar eu huchaf erbyn 2020 er mwyn cadw'r blaned yn is nag 1.5C;**

- **Nodi ymgyrchoedd ac ymchwil Extinction Rebellion, Cyfeillion y Ddaear ac eraill, ynghylch daliadau cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol, gan gynnwys Dyfed Powys, mewn cwmnïau tanwyddau ffosil;**

- **Credu nad yw'r cynlluniau presennol yn agos at fod yn ddigon cryf i gadw'r tymheredd o dan y lefelau a elwir yn ddiogel.**
- **Yn croesawu'r ffaith bod Cronfa Bensiwn Dyfed eisoes wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy fel rhan o Bartneriaeth Pensiwn Cymru a'i bod yn canolbwyntio ar ei hymrwymiad i Newid yn yr Hinsawdd wrth gydnabod ei chyfrifoldebau ymddiriedol cyffredinol;**

- **Yn galw ar Gronfa Bensiwn Dyfed i ystyried lleihau ei buddsoddiad mewn tanwyddau ffosil.**

**Cynigiwyd gan:**
Y Cynghorydd Carys Jones

**Eiliwyd gan:**
Y Cynghorydd Ken Howell

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol